

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Is-adran Strategaeth a Chyllid Addysg Drydyddol ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024.

Lynne Neagle AS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

19 Gorffennaf 2024

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2024 ("Rheoliadau 2024") yn diwygio:
- Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007;
 - Rheoliadau Addysg (Athrofa Brifysgol Ewropeaidd) (Cymru) 2014;
 - Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol, Personau Cymhwysol a Darpariaeth Atodol) (Cymru) 2015;
 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2017;
 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Cymru) 2018;
 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau at Radd Ddoethurol Ôl-raddedig) (Cymru) 2018; a
 - Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfirwyr) (Graddau Meistr Ôl-raddedig) (Cymru) 2019.
- 1.2 Mae Rheoliadau 2024 yn diwygio deddfwriaeth cymorth i fyfirwyr a diogelu ffioedd i sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig neu drais domestig, a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth yn parhau i fod yn gymwys yn dilyn newidiadau i amrywiol ddarpariaethau o fewn y Rheolau Mewnfudo.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Dim.

3. Y cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Gwneir Rheoliadau 2024 o dan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983; adrannau 22(1)(a), (2)(a) a 42(6) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 ('Deddf 1998'); ac adrannau 5(5)(b) a 55(2) o Ddeddf Addysg Uwch (Cymru) 2015.
- 3.2 Mae adran 22 o Ddeddf 1998 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n awdurdodi neu'n ei gwneud yn ofynnol talu cymorth ariannol i fyfirwyr sy'n astudio cyrsiau addysg uwch neu addysg bellach a ddynodir gan neu o dan y rheoliadau hynny. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi, ymhlith pethau eraill, swm y cymorth ariannol (grant neu fenthyciad) a phwy sy'n gymwys i gael y cymorth hwnnw.

- 3.3 Mae adran 44 o Ddeddf Addysg Uwch 2004 ('Deddf 2004') yn darparu ar gyfer trosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 22 o Ddeddf 1998 (ac eithrio i'r graddau y maent yn ymwneud â gwneud unrhyw ddarpariaeth a awdurdodir gan is-adrannau (2)(j), (3)(e) neu (f) neu (5) o adran 22). Mae adran 44 o Ddeddf 2004 hefyd yn darparu bod swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol yn adran 22(2)(a), (c) a (k) o Ddeddf 1998 yn arferadwy'n gyfredol â Chynulliad Cenedlaethol Cymru.
- 3.4 Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 42(6) o Ddeddf 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
- 3.5 Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
- 3.6 Bob blwyddyn, dirprwyir nifer o swyddogaethau Gweinidogion Cymru mewn rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998 i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr o dan adran 23 o Ddeddf 1998.
- 3.7 Mae'r offeryn hwn yn ddarostyngedig i'r weithdrefn penderfyniad negyddol.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

- 4.1 Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud rheoliadau i ddarparu sylfaen ar gyfer y system cymorth ariannol i fyfyrwyr sy'n preswyllo fel arfer yng Nghymru sy'n dilyn cyrsiau addysg uwch dynodedig yn y DU, a myfyrwyr penodol eraill sy'n astudio yng Nghymru.
- 4.2 Mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod dioddefwyr cam-drin domestig neu drais domestig, a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth, sydd wedi cael caniatâd i fod yn y DU gan Lywodraeth y DU o dan amrywiol ddarpariaethau yn y Rheolau Mewnfudo, yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd. Mae plentyn person o'r fath hefyd yn gymwys. Mae'r unigolion hyn yn cael triniaeth arbennig o dan y Rheolau Mewnfudo i gydnabod y ffaith y gallent ei chael hi'n anodd dangos eu bod yn gymwys i gael caniatâd i fod yn y DU.

- 4.3 Mae'r Swyddfa Gartref wedi gwneud newidiadau i'w Rheolau Mewnfudo i gynnwys dioddefwyr cam-drin domestig a phartneriaid sydd wedi cael profedigaeth mewn dau atodiad ar wahân newydd. Mae deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd Cymru yn cyfeirio'n benodol at y Rheolau Mewnfudo fel bod person sy'n dod o dan ddarpariaethau penodol yn gymwys i gael cymorth i fyfyrwyr.

Cymhwysra dioddefwyr cam-drin domestig a thrais domestig

- 4.4 Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud diwygiadau i gynnwys y rhai sy'n cael caniatâd o dan yr Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig newydd. Mae'r cyfeiriadau presennol at y Rheolau Mewnfudo o fewn deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd ar gyfer y rhai a gafodd ganiatâd cyn i'r Atodiad newydd ddod i rym wedi cael eu dargadw.
- 4.5 Bydd y diwygiadau yn gwneud y canlynol:
- sicrhau cymhwysra'r rhai a fyddai wedi dod o dan ddarpariaethau'r Rheolau Mewnfudo blaenorol; ac
 - estyn cymhwysra i'r rhai sydd â chaniatâd i ddod i mewn (nid oedd y darpariaethau yn y Rheolau Mewnfudo blaenorol ond yn darparu ar gyfer y rhai a oedd yn dod o dan y categori hwn â chaniatâd i aros). Mae'r Rheolau Mewnfudo wedi'u hehangu er mwyn i'r rhai sydd wedi dioddef cefnu ar briodas drawswladol (math o gam-drin domestig lle mae'r person sy'n cam-drin yn cefnu ar ei bartner dramor a'i ganiatâd i aros yn y DU yn dod i ben a/neu ei fod yn cael ei adael heb fynediad at ei basbort na'i ddogfennau mewnfudo, gan ei atal rhag dychwelyd i'r DU) gael llwybr tuag at gliriad i ddod i mewn i breswyllo yn y DU.

Cymhwysra partneriaid sydd wedi cael profedigaeth

- 4.6 Mae Rheoliadau 2024 yn gwneud diwygiadau i gynnwys y rhai sy'n cael caniatâd o dan yr Atodiad Partner sydd wedi cael Profedigaeth newydd. Bydd cyfeiriadau presennol y Rheolau Mewnfudo o fewn deddfwriaeth cymorth i fyfyrwyr a diogelu ffioedd ar gyfer y rhai a gafodd ganiatâd cyn i'r Atodiad newydd ddod i rym yn cael eu cadw.
- 4.7 Bydd y diwygiadau yn gwneud y canlynol:
- sicrhau cymhwysra'r rhai a fyddai wedi dod o dan y darpariaethau blaenorol;
 - ymestyn cymhwysra'r rhai sydd â chaniatâd i ddod i mewn (roedd y darpariaethau yn y Rheolau Mewnfudo blaenorol ond yn darparu ar gyfer y rhai a oedd yn syrthio o dan y categori hwn â chaniatâd i aros). Mae'r Rheolau Mewnfudo wedi'u hehangu i ddarparu ar gyfer partner

(tramor) personél yn y lluoedd arfog, sydd wedi cael profedigaeth, ac sydd â llwybr tuag at gliriad i ddod i mewn i breswyllo yn y DU.

- 4.8 Bydd y diwygiadau a nodir ym mharagraffau 4.4 i 4.7 uchod yn gymwys i fyfyrwyr newydd a phresennol, a byddant yn dod i rym o'r dyddiad y daw Rheoliadau 2024 i rym. Nid yw'r diwygiadau'n newid polisi ond maent yn adlewyrchu'r newidiadau technegol yn y Rheolau Mewnfudo fel bod y polisi presennol yn cael effaith.

5. Ymgynghori

- 5.1 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad ar gyfer y newidiadau technegol hyn yn y Rheolau Mewnfudo.

6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol (RIA)

- 6.1 Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni chynhaliwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol.
- 6.2 Mae'r offeryn statudol hwn yn cael ei gynnwys yn yr eithriadau a nodir yn y cod gan mai diwygiadau ffeithiol yn unig sy'n cael eu gwneud er mwyn diweddarau is-ddeddfwriaeth. Nid yw'r rhain yn newid y polisi (na'i effaith) yn arwyddocaol mewn unrhyw fodd, na sut y caiff ei gymhwyso mewn sefyllfa benodol.